

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Torfaen

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Torfaen fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Torfaen 6 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol a methodd â chyflawni 3 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Torfaen wedi cynnal ei berfformiad mewn meysydd sydd wedi bod yn gryf yn draddodiadol, sef cymorth ar gyfer iechyd a lles, ond mae'n amlwg bod newidiadau staffio wedi cael effaith ar gapasiti'r gwasanaeth. Mae'r defnydd o lyfrgelloedd wedi dirywio dros y cyfnod, ac er bod y symud i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan yn ffactor yn hyn o beth, cafodd proses ailstrwythuro staff hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd effaith sylweddol ar gapasiti staffio proffesiynol. Ni fydd effaith lawn hyn i'w gweld nes daw datganiad 2019/20 i law. Nodwyd bod arbedion o £239,000 a gynlluniwyd wedi'u cyflawni drwy gyllidebau wrth gefn yn 2018/19, ond mae'n amlwg bod ariannu'r gwasanaeth yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, gyda lefelau isel o fuddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau yn arbennig. Mae'n rhaid cwestiynu gallu'r gwasanaeth yn awr i gyrraedd y targedau y mae wedi'u gosod iddo'i hun yn ei Strategaeth a'i Gynllun Gweithredu pum mlynedd, o ystyried yr adnoddau a'r capasiti staffio cyfyngedig sydd ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth.

- Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu'r ystod ofynnol o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac erys darpariaeth iechyd a lles yn un o feysydd cryf y gwasanaeth.
- Erys y niferoedd sy'n cael hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) yn uchel, a thipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol i Gymru; dywedodd 98% o'r rhai a arolygwyd eu bod wedi cael help i gyflawni eu nodau.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu yn 2018/19, a nodir bod hyn yn gyflawniad sylweddol i dîm proffesiynol llai o faint.
- Yn gyffredinol, mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu, ond mae lefelau defnyddio'r llyfrgell ym mhob maes arall wedi gostwng; nodir bod hyn yn adlewyrchu effaith pontio i system rheoli llyfrgelloedd Cymru Gyfan yn rhannol.
- Erys y gyllideb ar gyfer deunyddiau ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac er bod y gwasanaeth yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyllid sydd ar gael, nid yw'n cyflawni targedau ar gyfer DA 9 na DA 10.
- Mae ymarfer ailstrwythuro staff canol blwyddyn wedi arwain at dorri bron hanner adnoddau staffio proffesiynol y gwasanaeth, ac nid yw Torfaen yn bodloni'r gofynion yn y maes hwn mwyach. Ni chaiff effeithiau llawn yr ymarfer ailstrwythuro hwn ar y gwasanaeth a ddarperir eu gweld tan ddatganiad 2019/20, ond mae lefelau staffio cyffredinol bellach ymhlith yr isaf oll yng Nghymru.

- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi'i gynnal, gyda'r arbedion arfaethedig yn dod o gyllidebau wrth gefn yn 2018/19.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Torfaen yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Darperir rhaglen amrywiol o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth, gan gynnwys gwasanaeth darllen ar y cyd sefydledig, a Gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner ym maes addysg, cyflogadwyedd a llesiant. Mae'r targedau cyflawni a bennwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth (2018-23) yn cael eu cyflawni, ond nodir bod rhai o'r mesurau yn debygol o fod yn heriol, o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol a'r toriadau diweddar yn nifer y staff.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Torfaen yn cyflawni 6 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 3 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	

DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflenwi'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae perfformiad Torfaen wedi dirywio yn 2018/19 ac nid yw'r targed ar gyfer staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth (DA 13) yn cael ei gyflawni mwyach.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyd, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Torfaen ei ddau arolwg o ddefnyddwyr ym mis Ionawr 2018 fel rhan o ymgynghoriad ehangach. Er bod ffigur wedi'i nodi ar gyfer DA 5 b) isod, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	73%	12/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	90%	=6/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	98%	=7/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Torfaen dair astudiaeth achos o'r fath, ond gellid bod wedi cynnwys tystiolaeth gryfach o effaith uniongyrchol ar gyfranogwyr mewn rhai achosion:

- Iechyd a Lles – effaith arbenigedd y gwasanaeth llyfrgell o ran cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth iechyd a lles ehangach a’u hyrwyddo. Yn achos un gofalwr, sy’n cefnogi ei wraig sydd â dementia, roedd cysylltiad â’r staff mewn sesiynau Darllen ar y Cyd rheolaidd wedi’u galluogi i nodi bod angen cymorth arno, a’i gyfeirio at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.
- Clwb Llyfrau – gwerth clwb llyfrau ffuglen droseddau mewn un llyfrgell, sy’n cynnig cysylltiad cymdeithasol a diddordeb cyffredin i grŵp craidd o bobl sy’n ei fynychu. Drwy ymestyn gweithgarwch drwy flog ar-lein caeedig, gall yr aelodau ysgrifennu a rhannu adolygiadau, ac mae’r aelodaeth wedi ehangu i gynnwys cyfranogwyr ‘o bell’. Mae pob aelod wedi cael ei annog i ddatblygu a dod yn hyderus yn ei ddefnydd o TG.
- Adborth Cwsmeriaid – gwnaeth ymatebion i flog llyfrgell yn gofyn i gwsmeriaid ‘Pam rydych yn hoffi ein llyfrgelloedd?’ arwain at greu amrywiaeth eang o dystiolaeth bersonol o werth ac effaith y gwasanaeth: fel ‘rhaff achub’ sy’n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a dysgu sgiliau newydd; creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn; ysbrydoli plant i ddarllen a dysgu.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i’r dangosyddion sy’n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae’r tabl canlynol yn crynhoi safle Torfaen ar gyfer 2018/19. Mae safle’r awdurdod wedi’i roi allan o 22, sef 1 yw’r uchaf a 22 yw’r awdurdod sydd â’r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi’u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion ‘y pen o’r boblogaeth’ eu cyfrifo fesul 1,000 o’r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy’n credu bod defnyddio’r llyfrgell wedi’u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	83%	=6/15	24%	82%	96%	77%
c) iechyd a lles	77%	6/15	33%	62%	94%	63%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=11/15	90%	97%	100%	97%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis ‘da iawn’ neu ‘da’ o lyfrau	95%	3/14	81%	91%	98%	90%
b) gofal cwsmeriaid ‘da iawn’ neu ‘da’	98%	=9/14	93%	99%	100%	96%
c) cyfleusterau TG ‘da iawn’ neu ‘da’	dd/b	/13	65%	91%	95%	
d) ‘da iawn’ neu ‘da’ yn gyffredinol	98%	=4/14	93%	97%	99%	96%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.5	13/13	8.5	9.3	9.5	9.3
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o’r boblogaeth	47	=5/22	13	30	208	32
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o’r boblogaeth	346	4/22	15	199	433	385
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o’r boblogaeth	195	17/22	91	295	689	187

DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,512	16/22	2,596	3,969	7,170*	3,491
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	513	15/22	345	885	2,205	700
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	101	19/22	58	150	251	107
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth <sup>2</sup>	323	20/22	95	602	1,424	320
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth <sup>3</sup>	8	15/22	5	10	14	8
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	25%	=11/22	14%	25%	63%	28%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	7	19/21	3	30	214	11
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	300	20/21	90	1,477	9,806	548
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£11,730	13/22	£7,181	£12,145	£19,449	£11,450
b) % ar staff	78%	1/22	47%	62%	78%	67%
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	19/22	8%	13%	21%	11%
% ar offer ac adeiladau	6%	6/22	0.4%	4%	25%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	6%	21/22	0.3%	16%	37%	19%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£546	10/22	£0	£467	£8,829	£0
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£2.48	2/22	£1.18	£1.82	£2.52	£2.04
DA 16 – Oriau agor <sup>4</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

<sup>2</sup> fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

<sup>3</sup> fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl <sup>4</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Torfaen ei ddau arolwg o ddefnyddwyr ym mis Ionawr 2018 fel rhan o ymgynghoriad ehangach, a ddangosodd lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu'r ystod ofynnol o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac erys darpariaeth iechyd a lles yn un o feysydd cryf y gwasanaeth. Mae'r niferoedd a gofnodwyd mewn sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu'n sylweddol, ar ôl cynnwys sesiynau sgiliau defnyddwyr i blant (o dan fenter ECALM) nad oeddent wedi'u cynnwys yn y datganiad y llynedd. Nodir bod y niferoedd sy'n mynychu sesiynau TG i oedolion fel arall yn sefydlog. Mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi lleihau ers 2017/18 ond mae'r perfformiad yn y ddau faes dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol i Gymru.

### **3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)**

Mae Torfaen yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell gangen. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu yn 2018/19, a nodir bod hyn yn gyflawniad sylweddol i'r tîm proffesiynol, o ystyried bod pedair swydd i lyfrgellwyr cymwysedig wedi cael eu colli yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ymarfer ailstrwythuro staff. Yn gyffredinol, mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu ychydig, ond mae'r perfformiad ym mhob maes arall wedi dirywio, ond deellir y rhesymau dros hyn, am fod y broses o weithredu GDPR a system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan wedi amharu ar wasanaethau. Erys perfformiad islaw'r lefel ganolrifol i Gymru ar y cyfan, ac mae Torfaen yn un o'r ychydig iawn o wasanaethau nad ydynt wedi gweld cynnydd yn nifer y lawrlwythiadau electronig dros y cyfnod.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>i</sup>**

Bu gostyngiad unwaith eto yn y gwariant ar ddeunyddiau yn 2018/19, ond mae'n debyg bod y penderfyniad i atal archebu llyfrau dros dro tra oedd system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan yn cael ei rhoi ar waith yn ffactor o ran hyn. Mae nifer yr eitemau a gaffaelwyd yn uniongyrchol gan yr awdurdod hefyd wedi lleihau o ganlyniad, ac nid yw'r targedau o ran hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi mewn adnoddau i blant, ac mae'r gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi gwella, ond erys y perfformiad o ran hyn dipyn yn is na lefel y targed. Erys y gyllideb ar gyfer deunyddiau ymhlith yr isaf yng Nghymru ac mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar drefniadau prynu gostyngol drwy ei brif gyflenwyr i wneud y gorau o'r cyllid sydd ar gael. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi aros yr un fath fwy neu lai, gyda gostyngiad bach mewn lefelau defnydd, fel sydd wedi digwydd yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau eraill, gan adlewyrchu newid o ddefnyddio cyfrifiaduron personol traddodiadol i ddyfeisiau y mae defnyddwyr yn berchen arnynt ar y cyd â'r Wi-Fi a gynigir. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran cyflenwi ceisiadau.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae lefelau staffio wedi gostwng yn 2018/19 ar ôl ymarfer ailstrwythuro staff gael ei roi ar waith hanner ffordd drwy'r flwyddyn adrodd. Arweiniodd hwn at golli tair swydd broffesiynol CALI, a dileu swydd arall i lyfrgellydd cymwysedig o'r strwythur staffio pan ddaeth yn wag. Ni chaiff effeithiau llawn yr ymarfer ailstrwythuro hwn ar berfformiad eu gweld tan ddatganiad 2019/20, ond mae'n golygu colled siomedig a sylweddol o ran staff proffesiynol, gan haneru nifer y staff cymwysedig yn y gwasanaeth i bob diben ac, o ganlyniad, nid yw Torfaen yn cyflawni'r dangosydd ar gyfer staffio yn y maes hwn mwyach. Erys arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â gweithredu system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan wedi sicrhau bod y gofynion o ran hyfforddiant / datblygiad proffesiynol staff yn parhau i gael eu bodloni. Mae nifer bach o wirfoddolwyr yn parhau i helpu i weithredu gwasanaeth darllen 'Darllen yn Uchel' personol.

Mae'r buddsoddiad yn y gwasanaeth wedi parhau yn 2017/18 ar y cyfan, gyda'r arbedion cyllidebol arfaethedig yn dod o gyllidebau wrth gefn, a gwariant staff uwch oherwydd y defnydd cynyddol o staff achlysurol yn ystod cyfnodau o salwch ac er mwyn bodloni gofynion gweithredol eraill. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel, ond Torfaen sydd â'r lefel isaf o hyd yng Nghymru, ac nid yw'r targed yn cael ei gyflawni o bell ffordd, a chyda thair cangen yn unig nid yw hyn yn debygol o newid.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Torfaen yn cyflwyno naratif estynedig sy'n myfyrio ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau y mae'n eu cynnig i gefnogi ei gymunedau lleol. Fodd bynnag, byddai cyfeiriadau mwy penodol at flaenoriaethau a nodau Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol wedi rhoi mwy o dystiolaeth o'i gyfraniad strategol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Torfaen yn nodi'r ffordd y bydd ei Strategaeth newydd (2018-2023) yn rhoi'r fframwaith ar gyfer y gwasanaeth, gan nodi blaenoriaethau, a phennu targedau i ddatblygu'r gwasanaeth. Nodir datblygiadau o ran mabwysiadu system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan a chyflwyno ciosgau hunanwasanaeth, a bydd y gwasanaeth yn monitro effeithiolrwydd cyflwyno diwrnodau 'hunanwasanaeth' ar y defnydd a wneir o lyfrgelloedd ac o ran bodloni disgwyliadau cwsmeriaid. Cafodd ymarfer ailstrwythuro staff ei roi ar waith hanner ffordd drwy'r flwyddyn adrodd, a bydd y gwasanaeth hefyd yn monitro effeithiolrwydd y strwythur newydd ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Torfaen wedi cynnal ei berfformiad mewn meysydd sydd wedi bod yn gryf yn draddodiadol, sef cymorth ar gyfer iechyd a lles, ond mae'n amlwg bod newidiadau staffio wedi cael effaith ar gapasiti'r gwasanaeth. Mae'r defnydd o lyfrgelloedd wedi dirywio dros y cyfnod, ac er bod y symud i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan yn ffactor yn hyn o beth, cafodd proses ailstrwythuro staff hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd effaith sylweddol ar gapasiti staffio proffesiynol. Ni fydd effaith lawn hyn i'w gweld nes daw datganiad 2019/20 i law. Nodwyd bod arbedion o £239,000 a gynlluniwyd wedi'u cyflawni drwy gyllidebau wrth gefn yn 2018/19, ond mae'n amlwg bod ariannu'r gwasanaeth yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, gyda lefelau isel o fuddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau yn arbennig. Mae'n rhaid cwestiynu gallu'r gwasanaeth yn awr i gyrraedd y targedau y mae wedi'u gosod iddo'i hun yn ei Strategaeth a'i Gynllun Gweithredu pum mlynedd, o ystyried yr adnoddau a'r capasiti staffio cyfyngedig sydd ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth.

---

<sup>1</sup>Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.